

Pris: 50c

# Papur Pawb

Hydref 2020

Rhif 462



Y Cae Chwarae - tud 2

tud 5

Wyt ti'n Cofio?

tud 7

Sgwarnog Pentrebach

tud 10

Ffilmiau Ddoe

tud 12

Yr Ardd Fach

## Mae'r Teigrod yn dod adref!



Un o'r agweddau tristaf am y cyfnod clo a'i reolau llym yw gweld meysydd chwarae gwag ar hyd a lled y wlad. Ers mis Mawrth mae Cynghrair Pêl-droed Ieuenctid Aberystwyth wedi'i ganslo, ac am resymau amlwg nid oedd modd cynnal y twrnameintiau poblogaidd dros yr haf.

Erbyn hyn, mae'r rheolau wedi'u llacio i ganiatáu hyfforddi ond o dan y cyfyngiadau tynn iawn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Pêl-droed Cymru. Ond yn anffodus, mae Teigrod Tal-y-bont yn parhau heb gartref ei hun. Nid yw'r cyfleusterau a logwyd o'r blaen ar gael ar hyn o bryd. Felly, er bod hawl i'r plant i ymarfer, doedd ddim lle i weithredu hynny.



Teigrod y gorrffennol

Weithiau, daw cyfleoedd newydd allan o sefyllfa heriol. Yn ddiweddar mae trigolion Tal-y-bont wedi mynd ati i geisio gwella adnoddau'r pentref – yn cynnwys y cae chwarae a hefyd y cae sydd y tu ôl Maes-y-deri.

Cynhaliwyd trafodaethau ym mis Medi er mwyn sicrhau bod y cae yn addas ar gyfer hyfforddiant pêl-droed. Mae rhieni rhai o'r chwaraewyr, gan gynnwys Anthony Foulkes, Taliesin, wedi treulio oriau yn torri'r gwair. Ar yr un pryd, roedd swyddogion y Clwb Pêl-droed Ieuenctid wedi cymryd y camau pwysig er mwyn sicrhau bod hyfforddi yno yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Roedd rhaid gwneud asesiad risg ar bob agwedd o hyfforddi, fel parcio a mynediad, er mwyn lleihau'r risg o nifer fawr o bobl yn ymgasglu yno. Rhaid oedd sicrhau hefyd bod modd i'r plant lanhau eu dwylo a bod yr offer wedi'i ddiheintio. Mae hyd yn oed 'throw-ins' wedi cael eu gwahardd am y tro!

Ar ddydd Sadwrn 26 Medi trefnwyd dwy sesiwn lwyddiannus yn y bore gan brofi i'r gwaith paratoi fod yn fuddiol. Dilynodd pawb y rheolau yn ddiffwdan - ar pethau pwysicaf oedd gweld gwên ar sawl wyneb wrth iddynt fwynhau cicio pêl unwaith eto. Dylen ni ddim anghofio pa mor bwysig yw ymarfer corff a chwaraeon i iechyd corfforol a meddwl ein plant - ac roedd yn wir yn wefreiddiol gweld eu mwynhad.

Mae dyfodol y Clwb yn edrych yn fwy addawol bellach. Mae cymaint o ewyllys da gan bobl leol i weld pêl-droed yn parhau ar y cae, a dylen ni ddiolch i'r Cyngor Cymuned am ddangos cefnogaeth a ffydd. Yn y misoedd nesaf bydd y Clwb yn bwrw ymlaen ddatblygu cynlluniau i wella'r profiad i chwaraewyr ifanc yno – mwy i ddilyn!

Tom Cosson

## Papur Pawb

### Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins  
(01970) 832560

Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com

### Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

### GOHEBYDDION LLEOL

#### Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont  
832592

#### Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn  
832076

#### Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin  
832573

#### Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths  
(01654) 781264

#### Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

#### Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont  
832697

#### Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont  
832344

#### Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont  
832093

#### Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont  
832448

#### Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

#### Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

#### Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

#### Do-barthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;  
Carys Briddon, Bob Williams

*Cyhoeddwyd gan  
Gymdeithas Papur Pawb.  
Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru.*

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...  
[www.papurpawb.cymru](http://www.papurpawb.cymru)  
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweiplyfr (@papurpawb)

## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair, Beryl a Lisa, gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd fydd Helen (helen.iwan@btinternet.com) a Ceri (stiwedio@ceri-talybont.com).

Y dyddiad cau yw 6 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 13 Tachwedd.



## Fferyllfa Tal-y-bont

Mae wyneb newydd bellach yn rhedeg y Fferyllfa yn Nhal-y-bont ac estynnwn groeso cynnes i Cerian Screen y fferyllfeydd sy'n teithio'n ddyddiol o Gilcennin i Dal-y-bont. Yn enedigol o Wrecsam treuliodd Cerian gyfnodau yn byw yn Ellesmere, Casnewydd, Yr Almaen, Caerdydd a De America. Bu'n dilyn gyrfa fel hyfforddwraig Ceffylau ar ôl cyfnod yn dilyn Astudiaethau Ceffylau yn Aberystwyth, cyn penderfynu ar newid byd yn llwyr. Yn 2008 cymhwysodd fel fferyllfeydd gan ddechrau gweithio i Gary Jones yn Fferyllfa Borth a Thal-y-bont tua dwy flynedd yn ôl.

Mae'n cynnig amryw o wahanol wasanaethau i'w chwmeriaid yn cynnwys darparu'r brechlyn fflw a thrin anafiadau llai. Bellach mae Fferyllfa Tal-y-bont yn un o un ar bymtheg o fferyllfeydd trwy Gymru sy'n rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru i fferyllfeydd cymunedol, gyda'r bwriad o wella iechyd a llesiant trwy sicrhau mai'r fferyllfeydd cymunedol yw'r lle cyntaf y bydd llawer o gleifion yn mynd. Mae Cerian er enghraifft yn medru cynnig presgripsiwn am ddim a chyngor ar nifer o anhwylderau cyffredin.

Un maes y mae'n falch iawn ohono yw'r gwasanaeth mae'n rhoi i ysmygwyr sy'n awyddus i roi'r gorau i'r arfer. Mae'r rhaglen ddeuddeg wythnos sydd ar gynnig ganddi a chyfradd llwyddiant o 80%. Cofiwch alw heibio'r Fferyllfa rhywdro rhwng 10.30y.b a 4.40y.h o ddydd Llun i ddydd Gwener a bydd croeso cynnes a gwên gyfeillgar yn eich disgwyl.



## Cae Chwarae

Ar y 5ed o Fedi cynhaliwyd cyfarfod yng nghae Chwarae Tal-y-bont (Cae Bach ger Maes-y-deri) rhwng rhai o aelodau Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr a thua tri deg o drigolion a rhieni'r gymuned leol. Mae bron i hanner can mlynedd ers y crëwyd y parc chwarae gwreiddiol ar gae chwarae hen ysgol gynradd Tal-y-bont ac er bod yr offer wedi eu huwchraddio ers hynny, bellach mae nifer wedi gweld eu dyddiau gorau ac angen eu hadnewyddu.

Yn ystod y cyfarfod mynegwyd pryderon am gyflwr wyneb y cae chwarae a'r offer ac nad oeddynt yn llwyr addas i'r gofynion bellach. Cafwyd trafodaeth adeiladol am yr hyn y dymuni'r gymuned weld yn eu cae chwarae lleol. Yn dilyn y cyfarfod sefydlwyd tudalen Facebook o dan yr enw 'Cae Chwarae Tal-y-bont Playground' ac mae'r brwdfrydedd wedi parhau a'r gobaiith yw derbyn syniadau am sut i wella'r cae chwarae a'r offer.

Wrth gwrs nid yw hwn yn brosiect y gellir ei gyflawni'n hawdd a chyflym ac fe fydd angen cryn dipyn o arian ac adnoddau. Mae'n fwriad i geisio am gymorth ariannol o wahanol ffynonellau. Felly, os oes gyda chi syniadau neu wybodaeth am grantiau addas, cofiwch gyfeirio'r rhain at y grŵp ar Facebook neu trwy law Rab Jones, Clerc y Cyngor Cymuned neu Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont Cadeirydd y Cyngor.

Agorwyd y cae chwarae presennol yn 1973 gan Aelod Seneddol y Sir ar y pryd sef yr Arglwydd Elystan Morgan a hynny'n dilyn cyfnod o hyd at bum mlynedd o weithgarwch codi arian yn lleol. Da gweld bod yr ysbryd cymunedol hwnnw yn parhau'n fyw ac yn iach yn y pentref a'r ardal leol a braf fyddai medru gweld ei ail agor ar ei newydd wedd erbyn y dathliad hanner can mlynedd yn 2023.



**"Mae'n amlwg fod y teledu yna fel yr un yn Aberhosan – yn amharu dim ar dy allu di i weithio"**



### Cydymdeimlad

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth sydyn Mike Lowe ar Ddydd Sul 13 Medi 2020. Bu'n byw yn Hafod Elerch, Bont-goch am dros bymtheg mlynedd, cyn symud i Comins-coch yn 2015. Bu'n aelod o staff Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, Prifysgol Aberystwyth hyd at ei ymdddeoliad yn 2008.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda'i briod Sue, a'u plant George a Florrie, a gweddill ei deulu. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Aberystwyth ar 2 Hydref 2020.

Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar er cof annwyl am Mike tuag at UNICEF a / neu Ambiwylans Awyr Cymru drwy law D J. Evans, Cyfarwyddwr Angladdau, Kairali, Penrhyn-coch, Ceredigion SY23 3EQ.

### Croeso i'r Cylch

Croeso i Jo Chalmers a Jon Coates i rif 4 Pentrebach. Daw Jo yn wreiddiol o Borthcawl ac mae'n gweithio efo'r Heddlu fel Ymchwilydd Lleoliadau Trosedd. Mae Jon o Alrewas wrth Litchfield ac mae'n dysgu peirianeg yng Ngholeg Y Drenewydd.

Mae Richard Downing hefyd yn newydd i Bentrebach (Bwthyn, rhif 3). Symudodd Richard o Aberystwyth lle mae'n darlithio mewn dylunio ar gyfer y theatr yn y Brifysgol.

Croeso cynnes i chi gyd.

### Geni Gor-wyr

Llongyfarchiadau i Betty ac Ifan Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont ar enedigaeth eu gor-wyr Ioan Gruff. Pob dymuniad da i'r teulu bach ym Mhontsian.

### Pen-blwydd Arbennig

Gobeithio y cawsoch chi ddiwrnod da yn dathlu eich pen-blwydd arbennig Mrs Myra Price, Cartrefle, Tal-y-bont.

# Pobl a Phethe



## O'r diwedd.....mainc!

Bu'r gornel hyfryd a phoblogaidd ar y daith gerdded i Bentrebach heb fainc am ddau haf ond ym mis Medi ac mewn da bryd i haf bach Mihangel, cyrhaeddodd un newydd sbon danlli, diolch i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr. Yn absenoldeb mainc am gyfnod hir ac er mwyn hwyluso'r daith i'r sawl sy'n cerdded ymhellach i weld yr olygfa o'r Figyn a Phen Llŷn, gosodwyd 'stôl' yna dros dro. Difrodwyd hon unwaith ond, fel y gwelir yn y llun, mae'r mawr ar' bach, y newydd sbon ar' llai newydd yn cydfyw'n hapus.

### Eglwys St. Pedr, Elerch

Cytunodd y swyddogion ar Ficer na fyddai gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr Eglwys am y tro yn ystod y cyfnod presennol. Adolygir y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'r gwasanaethau zoom wythnosol yn parhau, ac os ydych am ymuno cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Dafis ar lyndafis@gmail.com

### Yn yr Ysbyty

Gobeithio fod Ralffi bach, Glanceulan, Tal-y-bont yn gwella wedi iddo fod yn Ysbyty Bronglais. Yno ar ei ôl bu ei fam Kara yn derbyn triniaeth ond bu raid iddi hi dreulio mwy o amser yno na Ralffi. Brysiau wella Kara.

### Merched y Wawr Tal-y-bont ar' Cylch

Am y tro cyntaf ers mis Chwefror daeth aelodau'r gangen at ei gilydd y tu allan i Cletwr ar fore Llun, 28 Medi. Braf oedd bod yng nghwmni ein gilydd unwaith eto a mwynhau sgwrs dros banded o goffi da. Yn ystod y bore cafwyd cyfle i ail-ymaelodi gyda'r mudiad ac i drefnu taith gerdded, tywydd yn caniatáu, ym mis Hydref. Yna cawn gyfarfod rhithiol yn Nhachwedd.

### Symud Tŷ

Pob dymuniad da i Delcy Owen a Garnon sydd wedi symud o

Gerddigleision, Bont-goch, i'w cartref newydd yn Llanbadarn Fawr. Croeso cynnes i'n plith i'r teulu newydd sydd wedi ymsefydlu yn y Gerddi.

### Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Jennifer Drage, Yr Hen Ysgol, Bont-goch a ddatlodd ben-blwydd arbennig ar 16 Medi.

### Pen-Blwyddi Arbennig

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i dri o fechgyn yr ardal sef Dylan Benjamin, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ym mis Gorffennaf; David Jones, Bwlchdyddwyallt, Tal-y-bont ym mis Medi ac i Marc Richards, Rhiwlan ym mis Hydref, a fydd yn mynd ar ei feic newydd yn yr ardal mae'n siwr!

### Codi arian

Da iawn Finley Saycell, Dôl Pistyll, a seiclododd gan milltir dros bythefnos ym mis Awst, er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen 'Sense'. Ei darged oedd codi £100 ond llwyddodd i godi cyfanswm o £150.

### Gwellhad buan

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Elsbeth Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont a Hugh Rowlands, Erglodd, Taliesin ill dau wedi bod yn anhwylys yn ddiweddar.

### Sam Ebenezer

Mae nifer o ddarlennwyr PP wedi bod yn cadw llygaid barcud ar yrfa theatrig Sam Ebenezer, Maes y felin, Tal-y-bont a bu cryn gyffro pan aeth y newyddion ar led ei fod wedi cael rhan yn y ddrama 'The Mousetrap' sydd wedi bod yn rhedeg yn Theatr St Martin's, Sgwar Leicester, Llundain ers 68 mlynedd.



Bu Sam yn gefnogol i Eisteddfod yr Urdd ar Eisteddfod Genedlaethol am nifer o flynyddoedd gan ennill nifer o wobrau ac yn naturiol dewisodd fynd ymlaen i ddilyn cwrs Theatr Gerdd a pherfformio yng ngholeg Mountview, Llundain.

Ers iddo raddio yn 2016 bu'n chwarae'r prif rannau mewn sawl pantomeim Nadolig ac yn gweithio gyda Chwmni Adloniant Haka yn Aberystwyth.

Mae'r Clo Mawr wedi cael effaith negyddol ar y celfyddydau gyda theatrau wedi cau ond ym mis Awst cafodd wahoddiad i ffilmio

pantomeim, gan gadw at reolau pellter, yng ngardd cyn - gyflwynydd y rhaglen Blue Peter, Peter Duncan. Yno, yn ei gyfarwyddo oedd cyfarwyddwr 'The Mousetrap' ac fel y gallwch ddyfalu, cynigiodd ran Sarjant Trotter yn y ddrama enwog i Sam!

Mae'r cast newydd ddechrau ymarfer ond nid oes dyddiad hyd yma ar gyfer y perfformiad cyntaf ond peidiwch â phoeni, fe fydd y wybodaeth ar gael yn PP yn y dyfodol.

Tipyn o gamp i Sam ac yntau'n ddim ond 25 oed. Pob hwyl i ti a chadw'n ddiogel.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â Stephen Evans, Cefngweiriog, a'r teulu ar golli ei dad, Gareth Evans, Llys Garwen, Penegoes ar y 9fed o Awst ac hefyd gyda teulu Pantydwn, ar golli Gwesyn Evans yn ddiweddar (teyrnged i ddilyn).

### Ymdddeoliad

Dymuniadau gorau i Megan Mai, Gwynionydd, Taly-bont ar ei hymdddeoliad yn ddiweddar - ond gofawch beidio yfed gormod o swigod yn y swigen gyda Phil!

### Yn yr ysbyty

Cofion cynnes at Gerallt Evans, Pantydwn sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd ac sydd yn aros am gael mynd i ysbyty yn Abertawe.

# Ysgol Tal-y-bont

Fel y gwyddoch, ar ôl misoedd hir o fod adre a chael eu gwersi dros y we, mae'r plant i gyd nôl yn yr ysgol ac mae hynny'n deimlad braf iawn. Ond, yn amlwg, oherwydd Covid-19 rydym wedi gorfod newid llawer ar y trefniadau dyddiol arferol ac wedi cyflwyno nifer o gamau hanfodol i sicrhau lles a diogelwch y disgyblion a'r staff. Efallai y byddai gan ddarllenwyr Papur Pawb ddi-ddordeb i wybod sut yn union y mae trefn y dydd wedi newid ar gyfer gallu agor i bob plentyn ym mis Medi.

Yn gyntaf, wrth gyrraedd yr ysgol mae'n rhaid i bob un ddilyn system un-ffordd a dilyn llwybr o'r maes parcio tuag at yr iard ac at ddrysau penodol ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau gan ddiheintio eu dwylo cyn cael mynediad i'r dosbarth. I adael yr ysgol rhaid dilyn y llwybr un ffordd allan drwy'r giatiâu mawr.

Wrth gyrraedd y dosbarth rydym yn defnyddio thermomedrau infra-red i gymryd tymheredd bob plentyn. Dydy rhieni nac ymwelwyr eraill ddim yn cael mynediad i'r adeilad ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol wedi ei rhannu i ddau barth a dau ddsbarth i bob parth. Rydym wedi gorfod amserlennu'r dydd yn fanwl iawn fel nad yw llwybrau'r ddau barth yn croesi a hyd yn oed o fewn y parthau, bydd y dosbarthiadau'n cadw'n hollol ar wahân i'w gilydd. Mae hynny'n golygu fod bob parth yn cael amser chwarae ar wahân a bod gan bob dosbarth eu lle chwarae arbennig. Rydym wedi torri porfa'r cae mewn ffordd arbennig hefyd, fel bod parth i bob dosbarth chwarae'n ddiogel heb ddod i gysylltiad â'u gilydd. Mae pob parth yn cael cinio ar wahân, sy'n golygu bod dau amser cinio gwahanol. Mae'r staff sydd ar ddyletswydd amser cinio neu yn y clwb brecwast yn gwisgo dillad arbennig i'w hamddiffyn rhag dal y firws. Mae hynny'n cynnwys fiswr wyneb, ffedog a menig. Hoffwn ddiolch i staff y gegin am fod mor hyblyg wrth arfer gyda'r drefn newydd yma.

Dwi'n siŵr y byddech yn cael tipyn o sioc o weld y dosbarthiadau hefyd, gan fod pawb yn eistedd mewn rhesi er mwyn lleihau'r cyfleoedd o ledau'r haint pe bai'r plant yn gweithio mewn grwpiau. Yn ogystal â golchi dwylo ar fynediad i'r ysgol gyda diheintydd, byddwn yn golchi



dwylo gyda dŵr a sebon yn aml iawn yn ystod y dydd hefyd. Ac er bod cydnabyddiaeth nad yw'n bosib i'r plant lleiaf gadw pellter, mae disgwyl bod y staff yn cadw at y canllawiau cenedlaethol, a chadw pellter o ddwy fetr oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth y plant. Mae hynny'n golygu bod gallu rhoi cymorth i'r plant wth eu gwaith a gweithgareddau fel gwranddo ar blant yn darllen yn anodd iawn. Er nad yw'n orfodol i staff wisgo y dillad amddiffyn i gyd mewn gwersi, mae staff fel arfer yn gwisgo'r fiswr wyneb wrth ddysgu, yn enwedig os oes angen bod yn agos at blentyn am ryw reswm. Rydym wedi gorfod addasu cryn dipyn ar ein ffordd o farcio gwaith plant hefyd! Rhaid golchi dwylo cyn cyffwrdd llyfrau neu sicrhau eu bod yn cael eu rhoi naill ochr am 72 awr ar ôl eu marcio.

Mae'r staff wedi gorfod bod yn ddyfeisgar iawn yn eu defnydd o adnoddau yn yr ysgol hefyd. Ar ôl i blentyn ddefnyddio unrhyw offer, rhaid ei lanhau'n ofalus gyda diheintydd, neu ei gadw o'r neilltu am 72 awr. Mae hynny'n cynnwys unrhyw lyfr darllen! Bydd y staff yn glanhau dosbarthiadau dair gwaith y dydd gan ddefnyddio diheintydd ar y byrddau, y cadeiriau a phob bwlyn drws.

Buom yn hynod ffodus bod mis Medi wedi bod yn fis sych ar y cyfan a'n bod wedi gallu cynnal nifer o weithgareddau y tu allan; mae'n siŵr y bydd gwneud hynny'n fwy heriol dros fisoedd y gaeaf. Mae ffenestri a drysau pob dosbarth ar agor waeth beth yw'r tywydd i sicrhau cyflenwad cyson o aer.

Gyda'r rheidrydd i gadw'r dosbarthiadau ar wahân, yr holl waith glanhau a'r angen i fod ar ddyletswydd amser chwarae ac amser cinio, nid yw'r staff yn cael cyfleoedd i weld ei gilydd yn aml iawn. Bydd cyfarfodydd staff yn digwydd dros y we gan ddefnyddio TEAMS, ac yn unol â pholisi presennol Cyngor Ceredigion, nid yw Mr Jones yn gallu bod yn bresennol ar y safle gan ei fod yn gweithio o Ysgol Craig yr Wylfa ar hyn o bryd.

Gobeithio fod hyn yn rhoi darlun da i chi o'r sefyllfa sy'n bodoli yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'n wirioneddol heriol ar adegau, ond mae'r plant, y staff a'r rhieni wedi ymdopi'n dda ac wedi dechrau arfer gyda'r drefn newydd o weithio. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i Miss Morris am ei gwaith yn arwain yr ysgol o ddydd-i-ddydd ac i'r holl staff am eu gwaith difflino dros y plant. Diolch hefyd i'r rhieni am fod mor gefnogol i ni wrth ddeall a derbyn y ffordd wahanol o weithredu. Ond y plant sy'n haeddu'r diolch mwyaf. Mae gweld y plant mor hapus i fod nôl yn codi calon pawb. Maent wedi dangos dycnwch a dyfalbarhad gwirioneddol arbennig dros y cyfnod yma – rydych yn sêr bob un ohonoch!



**Yn ystod mis Medi, rydym wedi bod yn rhoi llawer iawn o bwyslais ar les y disgyblion a sicrhau bod y plant yn setlo'n dda nôl yn yr ysgol. Mae llawer o'n gweithgareddau wedi bod yn trafod teimladau ac emosiynau a sut bod pobl yn ymateb yn wahanol mewn amgylchiadau gwahanol. Dyma rai lluniau sy'n dangos sut yr ydym wedi bod yn meithrin yr agwedd yma.**



# Wyt ti'n Cofio?

Yn ddiweddar, deuthum ar draws cerdd a gyflwynwyd i 'm tadcu, William Edwards, gynt o Elerch House, Bontgoch, gan ei gyd-frwydrwr yn y Rhyfel Mawr.

## Wyt ti'n cofio?

Wyt ti'n cofio'r dydd gadawsom  
Draethau'n gwlad tro cynta 'rioed?  
Curai'n gynnes ymhob mynwes  
Hoen a iengtyd ugain oed.

Wyt ti'n cofio'th bregeth rymus  
Yn yr India un prynhawn  
Pan sobreiddiodd yr hen Hwmffres  
O dan hwyl Gymreig ei dawn?

Wyt ti'n cofio'r teithio caled  
Tan ddwyreiniol ddeifiol wres?  
Ond nol cyrhaedd pen pob siwrne  
Nid oedd cartre ddim yn nes.

Wyt ti'n cofio'r teimlad hwnnw  
Yn unigedd trwm y nos  
Pan yn treilio awr o wyllo  
Wrth dy hun mewn gwaedlyd ffôs?

Wyt ti'n cofio ambell lecyn  
'Tan gysgodion palmwydd clyd'  
Lle cawn yfed a gorffwyso  
Ar ol teithio'r anial c'yd?

Wyt ti'n cofio stori'r 'fingis'\*  
Glywais ganwaith gennyt ti  
Ar wastadoedd cras y Tigris  
Ac ym mhebyll bach Kirkee?

Wyt ti'n cofio'r hen Langeitho  
Pan yn rhannu'r rations llwm?  
Os oedd rhan pob un yn gydradd  
Credai ef fod llai gan Twm.

Wyt ti'n cofio'r tro pan nychais?  
Twynnai'r hael fel deifiol fflam.  
'Rhen Bontgoch a weiniau arnaf  
Gyda llaw fel llaw fy mam.

Wyt ti'n cofio Ianto Hopkins  
Sydd ar ol mewn estron wlad?  
Cysgodd bellach dan y palmwydd  
Lluyddi maith o dŷ ei dad.

I aflonydd fyd dychwelodd  
Gryfdwr tebyg eto ar droed  
Ond i ti a mi ni ddychwel  
Hoen a iengtyd ugain oed.

Dan Jones  
Nadolig 1939

(\* cerdd 'tongue-twister')

Ganwyd fy nhadcu ym Mehefin 1893. Pum mis yn ddiweddarach, lladdwyd ei dad mewn damwain yng ngwaith Bwlchglas. Y traddodiad yw bod ficer Elerch wedi dangos cryn haelionu tuag at y weddw a'i phlant. Ond fel gwas bach di-dâl y gwelai fy nhad-cu ei hun. 'Doedd dim a wnâi yn plesio gwraig y ficer. Daeth pethau i ben ym misoedd cynnar y Rhyfel Mawr. 'Roedd Wil yn lladd gwair yng nghae'r ficerdi pan aeth y ceccu'n ormod iddo. 'Tr diawl a chil' meddai. Bwrodd y bicfforch i mewn i'r ddaear ac i ffwrdd ag ef i ymrestru. Blynnydoedd yn ddiweddarach 'roedd y bicfforch yn dal i rydu yn yr union fan lle'i thaflwyd hi. Yn y cyfamser 'roedd Wil wedi teithio'r byd. Fel un o Ororwyr De Cymru, bu'n ymladd yng Ngalipoli, Thesalonica, Mesopotamia a'r India.

'Roedd ganddo lawer o gyfeillion clos. Ond, wedi dychwelyd adref, anodd oedd cadw'r cysylltiad yn fyw. Yna, ar ddechrau rhyfel newydd, dyma'r gerdd hon yn ymddangos mewn papur lleol a neges i ofyn ble'r oedd Wil Bontgoch.

Mae'r llinellau'n adlewyrchu ei gymeriad i'r dim. 'Roedd yn actor a dynwardwr galluog. Dim syndod felly i ddarllen amdano'n 'pregethu' yn yr India. Fel Dan, fe glywais innau stori'r 'fingis' mor aml nes imi ei chadw ar gof hyd heddiw. Y gamp fwyaf yw adrodd ei hamryw droeon tafod yn ddiwall. Mae tynerwch Wil yn amlwg yn y disgrifiad ohono'n gweinyddu ar ei ffrind. Soniodd yn aml am Ianto Hopkins,

perthynas i deulu Melindwr, Eglwysfach. Fe syrthiodd yng Ngalipoli ac mae wedi'i enwi ar gof golofn Helles yn Nhwrcki.

Wedi'r rhyfel, daeth Wil yn aelod blaenllaw o gymdeithas Bontgoch. Bu'n glochydd a thorwr beddau am bron i hanner can mlynedd. Yn y pumdegau, ef oedd y cynghorydd a ddaeth a'r lampau stryd cyntaf i'r ardal. Yr adeg honno hefyd, arweiniodd streic gynulleidfaol yn erbyn y penderfyniad i uno plwyfi Elerch a Phenrhyn-coch; achlysur a dynnodd sylw'r *Daily Express*. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd galwyd pob un o'i bedwar plentyn i'r fyddin. Yn ddiweddar bu wŷr ei orwyrseu yn ymladd yn Irac, yn yr union lefydd lle bu ef bron i gan mlynedd yn nghynt!



William Morgan Edwards (Wil)  
pan yn aelod o Ororwyr De Cymru  
(South Wales Borderers)



Cerdyn a ddanfododd Wil i'w chwaer, Mei, yn ystod ei dymor hyfforddiant milwrol. Mwyaf tebyg mae yn Blundell Sands, i'r gogledd o Lerpwl, 'roedd ef ar y pryd.

Aelwyn Pugh

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cyfarfod Misol Mis Medi 2020

Erbyn hyn mae aelodau Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn cwrdd eto ar lein trwy gyfrwng Zoom. Cynhaliwyd cyfarfod misol Mis Medi'r Cyngor Cymuned ar Nos Lun, 28 Medi 2020, gyda deg o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng. Nia Richards groeso cynnes i bawb.

## Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y Gymuned a nifer o faterion eraill. Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cyng. Alexis Flores Williams am waith Mick Fothergill yn mesur cyflymder traffig ym mhentref Tal-y-bont. Mi fydd y gwaith yma yn sylfaen adroddiad i fynd i'r awdurdodau i ddwyn sylw at bryderon trigolion y pentref am y sefyllfa bryderus bresennol.

## Meinciau

Cadarnhaodd y Clerc fod un fainc wedi cael ei symud i leoliad newydd ar Gomin Braich Garw a bod mainc newydd wedi cael ei gosod ar y ffordd gefn o dan goedwig Allt y Crib. Mi fydd un fainc newydd arall yn cael ei gosod yn y fynwent. Estynnwyd diolch i Mr John Evans a'r Cyng. Enoc Jenkins am y gwaith yma.

## Yr Ardd Fach

Cadarnhaodd y Cadeirydd, Cyng. Nia Richards, fod grŵp o wirfoddolwyr o Grŵp Garddio Tal-y-bont wedi bod yn gweithio'n galed pob dydd Sul i wella'r ardd fach ger y toiledau cyhoeddus yn Nhal-y-bont. Mi fydd Mr John Evans yn mynd ati i drwsio'r wal o gwmpas yr ardd. Estynnwyd diolch i'r gwirfoddolwyr i gyd am eu gwaith caled yn yr ardd.

## Sul y Cofio

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd na fydd yn bosib cynnal gwasanaeth cyhoeddus eleni yn nodi Sul y Cofio oherwydd y sefyllfa coronafeirws. Cytunwyd y bydd trefniadau yn cael eu gwneud i osod dau dorch o flaen y paneli coffa yn y Neuadd Goffa.

## Cynllunio

Gohiriwyd trafodaeth ar yr un cais cynllunio ar yr agenda, sef cais am adeilad amaethyddol ym Mhlas y Bryniau, Pentre Bach. Cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig ar gyfer trafod y cais yma.

## Cyfarfod Nesaf

Cadarnhaodd y Clerc y bydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 26 Hydref 2020.

## Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr  
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002

# Cymorth i greu mwy na Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

Ar ôl gorfod gohirio'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, mae golygon pawb yn troi i'r flwyddyn nesaf, gyda'r Brifwyl i'w chynnal yma yng Ngheredigion am y tro cyntaf am bron i ddeng mlynedd ar hugain.

Mae pwyllgor Dysgu Cymraeg Eisteddfod Ceredigion wedi creu cynllun "Byddwch yn un o'r miliwn", sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg brwd ar draws y sir gael cefnogaeth aelodau o'r pwyllgorau lleol wrth iddynt fynd ati i ddysgu'r iaith dros y flwyddyn nesaf.

Un peth yw mynychu dosbarth peth arall yw chwilio am gymorth i ymarfer rhwng y dosbarthiadau hynny. Y bwriad yw grwpio dysgwyr gydag un neu ddau siaradwr rhugl a threfnu iddynt gyfarfod dros zoom, factime neu skype yn wythnosol er mwyn datblygu'u hyder, fel eu bod yn barod i wirfoddoli yn yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Dros y gaeaf wedyn byddwn yn cwrdd yn rhithiol bob hyn a hyn ar foreau dydd Sadwn mewn esgus Bore Coffi.

Os ydych chi'n teimlo y gallech sbario ychydig o amser i helpu rhowch wybod. Mae'r manylion cyswllt isod.

Heb noddwyr hael fyse hwn ddim wedi bod yn bosib. Rydym yn ddiolchgar iawn i Bro 360 ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu gyda Medi James ar 07855 491 022 / medijames22@gmail.com.



**Am**  
**GOFEBAU ARBENNIG**  
**BEDDARGRAFFIADAU**  
**ADNEWYDDU O SAFON**  
**ARWYDDION AR DAI A**  
**BUSNESAU**

---

*Gofynnwch am bampffed*  
*rhad ac am ddim*

---

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

## STORFA HUNAN FYNEDIAD



### UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH  
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsau a Bubblewrap



STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES

www.midwalesstorage.co.uk

# Y LLEW GWYN

## Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
**(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
**garethwhitelion@outlook.com**

## Gwasanaeth Scanio

### ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

## Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm  
Llan-Greener

(01970) 832 674

# Neges gan sgwarnog Pentrebach

Shwmae? Nog Pentrebach yma.

Dim ond eisiau diolch i chi am gael llonydd a glaswellt blasus yn eich milltir sgwâr (nog)

Wel, dwi'n d'eud llonydd. Dyna le ro' ni yn y Gwanwyn yn gwneud dim drwg i neb ac wedi cael hyd i lecyn o wair hir heb fod yn bell o Gefn Erglodd. Mae'n gallu bod yn anodd cael hyd i le addas i orffwys pan mae defaid barus yn bwyta popeth! Beth bynnag, roedd cornel corsiog a gwair hir euraidd yn hen ddigon da i mi fedru swatio am sbel. Roedd sawl madfall dŵr a giach yno hefyd. Mae llefydd corsiog yn gallu bod yn brysur gyda bywyd gwyllt. Niwsans. Ro' ni jest eisiau nap fach.

Peth nesa' o ni'n clywed lleisiau ac 'ogleuo.....mwg! Roedd y diawled wedi rhoi'r gwair ar dân! Rhedais nerth fy nhraed lawr am Goed Taliesin a dyna phryd welais i Pentre Bach. Caeau gleision efo gwrychoedd tew heb ddefaid na gwartheg. Nefoedd i nog bach fel fi. Dwi bob tro yn chwilio am laswellt hir i gael cuddiad rhwng prydiau bwyd o laswellt ffres, newydd. Y broblem yw mai'r diawled gwlanog eisiau'r un bwyd a fi. A rhywsut mae'r ffermwyr yn hoffi nhw'n well na fi, er bod clustiau harddach gen i.

Tydi bywyd nog ddim yn hawdd.

Roedd pethau'n haws i nogs ers talwm. Fues i'n edrych trwy ffenest y Llyfrgell Genedlaethol ar y mapiau degwm. Yn ôl rheiny nôl tua 1850 roedd rhan fwy' o ffermydd Tal-y-bont gyda threian o'u tir dan borfa, treian yn dir â'r a threian ar gyfer gwneud gwair. Perffaith i ni nogs, efo digon o lecynnau i guddiad a digon o fwyd trwy'r flwyddyn.

Fe fyddwch chi wedi deall erbyn hyn nad yw nogs yn byw mewn tyllau budr fel rhai anifeiliaid israddol. Na, da ni'n hoffi gwneud 'nyth' yn yr awyr iach mewn glaswellt neu dyfiant arall hir a chael cuddiad efo'n clustiau lawr. Ryda ni'n cuddiad tan yr eiliad olaf un a dim ond wedyn yn heglu nerth ein traed. Top sbîd mewn lle agored yw dros 40 milltir yr awr!!

Roedd cyrraedd Pentre Bach yn hawdd diolch i ryw wyrth eleni gan fod y ffordd fawr yn dawel iawn. Rhaid bod chi anifeiliaid dwy-goes wedi bod yn gwranddo arnom ni, y bywyd gwyllt, wedi'r cwbl. Er gwaethaf eich clustiau bach gwirion!

Wel, erbyn canol mis Mai braf roeddwn wrth fy modd yn fy nghartref newydd. Ac wedi gweld nog gwryw ro' ni'n ffansio a dyma natur yn cymryd ei gwrs. Roeddwn yn cael bach o helynt efo buchod yn dod mewn i aflonyddu ar fy nghartref, a finnau'n gorfod chwilio am le newydd wrth ddisgwyl babis. Sawl tro roeddwn i weld yn cadw cwmni i Elton y ceffyl sy'n byw gyferbyn â Llwyn Awel. Mae'n dipyn o gês pan da chi'n dod i nabod o'.

Hefyd bûm yn ymweld â Thŷ Hen Henllys lle'r oedd fy hen nain wedi gweld plant bach ers talwm. Wel, mae'r plant yn fawr erbyn hyn ond dydy'r clustiau byth wedi tyfu!

Braf oedd cael dim trafferth gan gŵn na neb yn trio fy saethu. Mae ffyrdd yn broblem i ni nogs er ein clustiau arbennig, ryda ni hefyd yn dibynnu ar ein ffroenau er mwyn aroglu perygl. Mae ceir yn symud yn llawer rhy gyflym ac mae o leiaf tri nog wedi cael eu lladd ar lonydd cul Pentre Bach dros yr haf.

Roedd Pentre Bach yn cynnig llefydd i gysgodi heb fod yn gaeau silwair. Mae'r rheiny yn beryg bywyd i'n babis ni. Paid dechra' ar beryglon silwair! Dwi di colli teulu ifanc cyn hyn, diolch i dorri silwair. Ond stori arall ydy honno. Prin roedd llwynog i weld hyd gaeau Pentre Bach felly roedd pethau'n edrych yn addawol i fagu fy lefrod bach.

Cyrhaeddodd y babis – pedwar ohonynt – yn hwyr mis Mehefin ar ôl i'r tywydd droi yn lawog ond diolch byth roedd y glaswellt yn tyfu'n dda. Tra roedd y ffermwyr yn brysur roeddwn yn sglaffio'u porfa melys ac yn bwydo fy lefrod unwaith y diwrnod cyn iddi nosi. Mae fy mhlant yn reit annibynnol o'r dechrau, i chi gael deall. 'Tough love'. Yn annhebyg i gywion rhai anifeiliaid israddol, mae lefrod yn barod i redeg o'r cychwyn efo'u llygaid ar agor a chwbl. Dwi'n eu gadael fesul un mewn mannau cuddiedig addas mewn cae o faint ble mae'n bosib i mi weld os yw llwynog yn llechu.



Un noson pan roedd y lleuad yn fawr ac yn isel dros Pentre Bach nid llwynog oedd y peryg i fy lefrod. Roeddwn i wedi cymryd fy amser yn glanhau fy hun cyn mynd i chwilio am y lefrod i'w bwydo. Tra roedd y rhai bach yn cael llefrith dyma gath wen a thabbi yn sleifio'n nes ac yn neidio ar un o'r lefrod! Roedd wedi cipio'r babi mewn chwinc tra rho' ni'n bwydo'r lleill. Dim ond tri ar ôl. Trychineb! Tybed 'sw'n i'n well am focsio fel mae fy nghefnder yng Nghwm Ceulan, faswn i wedi medru amddiffyn fy mhlant yn well?

Trwy lwc dwi'n un o'r ychydig greaduriaid sy'n gallu bod yn feichiog eto cyn i'r babis cyntaf cael eu geni. Felly mae gobaith i chi fwynhau gweld ni nogs a'n clustiau hirion, urddasol o gwmpas eich ffermydd dim ond i chi sicrhau ychydig o le i ni efo gwair hir neu gnydau (ffermio mwy cymysg) fel yn yr oes a fu.

*Diolch, ffrindiau.*

## Lle a phryd i weld nogs o amgylch Tal-y-bont

Gofynnwch i'r ffarmwr agosaf oherwydd nhw sy'n eu gweld amlaf. Mae'r gwanwyn a haf yn well na'r gaeaf ond mewn tywydd garw maen nhw i weld yn cysgodi dan goed. Mae nogs i'w gweld yn bocsio yng Nghwm Ceulan ar ddechrau'r haf. Peidiwch mynd a chi gyda chi am dro ben bore neu cyn nos am y cyfle gorau i weld y nogs.

Cwningen	neu	Sgwarnog?
Llai o faint		Mwy o faint
Clustiau arferol		Clustiau hir, blaenau duon
Mewn gŵp		Un neu ddau. Anaml mwy nag un mewn un lle
Byw mewn twll		Cysgodi mewn glaswellt / brwyn hir
Rhedeg ffwrdd yn syth		Swatio a chuddiad nes bo raid rhedeg

## Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881  
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

## Dafydd Parry

Trist yw cofnodi marwolaeth, yn 96 oed, un o gymeriadau mwyaf adnabyddus pentre Tal-y-bont ar un adeg, sef Dafydd Parry, gynt o Blas Cefn Gwyn, Bont-goch. Bu'r 'Sgweiar' yn rhedeg y Plas fel canolfan ferlota am tua ugain mlynedd, pan oedd yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd yr ardal.

Ganed Dafydd ym mhentre Bethel, ger Caernarfon, ac aeth i'r Coleg Normal cyn gwasanaethu yn yr RAF. Yna enillodd grant i ddychwelyd i'r Brifysgol ym Mangor i astudio Amaethyddiaeth. Ar ôl graddio, bu'n

gweithio am rai blynedd fel cynghorydd amaethyddol gan deithio ffermydd ledled Cymru, profiad a fwynhaodd ac a gyfoethogodd ei adnabyddiaeth o'r wlad a'i phobl.

Ym 1971 mentrodd brynu Plas Cefn Gwyn ym Mont-goch a'i redeg fel busnes merlota

llwyddiannus tra hefyd yn cadw ceffylau a defaid. Roedd y plas yn gyrchfan poblogaidd yn lleol a gan ymwelwyr o mor bell â'r Amerig. Roedd croeso cynnes Dafydd, a'i ofal o'i gwsmeriaid, yn allweddol i lwyddiant y plas. Ymddeolodd ar ôl ugain mlynedd gan symud i fyw i Gwm Glas ar gyrion pentre Tal-y-bont.

Cafodd yn awr fwynhau cyfnod mwy ymlaciol gan deithio'r byd ar dripiâu a mordeithiau – gan ennill y teitl 'Cruise Missile' gan ei gyfaill, John Bala. Roedd John yn un o griw dethol, diwylliedig a pheryglus a fyddai'n teyrnasu ym mar cefn Y Llew Du a byddai Dafydd yn hoffi taro i mewn yno ar nos Sadwrn am 10 o'r gloch i fwynhau'r gymdeithas.

Roedd Dafydd wrth ei fodd mewn cwmni ac roedd ganddo gof eithriadol am bobl a llefydd. Yn wir gellir dweud bod yn ei ben atlas manwl o lawer iawn o'r Gymru Gymraeg. Roedd yn ddyn deallus ac abl a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i fyd amaeth a thwristiaeth.

Nid oedd Dafydd mor ystywyth ag y bu yn ei flynyddoedd olaf a bu Mair Jones, Maesnant gynt, yn hael ei gofal amdano tra yn Cwm Glas. Symudodd wedyn i gartre'r Carlton yn Llan-non, lle a ganmolai Dafydd yn gyson am ei groeso Cymreig.

Bu Dafydd yn briod (cyn ymwahanu) â Marian Huws o Landre, a fu farw ei hun yn ddiweddar, ac mae'n gadael dau o blant sef Hywel, sy'n byw yn Aberystwyth, a Rhiannon, sydd wedi ymgartrefu yn Llanarthne gyda'i gŵr, Tegid, a'u plant, Fflur a Rhys.

RG



Arbenigwyr Clwb Hen Beiriannau Meirionnydd wrth eu gwaith

## Tyfu Ceirch a Gwenith ar Fferm Melindwr yn Eglwysfach

Mae grŵp o dyfwyr grawn newydd wedi bod yn tyfu ceirch a gwenith ar Fferm Melindwr yn Eglwysfach am y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafodd y grŵp ei ysbrydoli gan hanes y fferm, gan ddysgu y câi grawn ei dyfu yno flynyddoedd yn ôl. Dywed aelod o'r grŵp, Katie Hastings "Daeth y cyfan at ei gilydd fel pe bai i fod i ddigwydd. Symudodd y pobyddion proffesiynol Tom a Jane Baker o 'Rye and Roses' i ardal Penegoes ar ôl rhedeg becws llwyddiannus yn Birmingham. Roedden nhw am gysylltu â phobl eraill sydd â diddordeb mewn tyfu grawn. Roedden nhw am weld gwenith yn cael ei dyfu o hadau yr holl ffordd i'r dorth. Roedd gan ein ffrind Sam Wren Lewis ddiddordeb mewn ymchwilio i dechnegau braenaru isel o dyfu grawn, tra bod ein ffrind Joe Hope wedi caffael hen dractor ac eisiau dysgu aredig. Yr unig beth arall oedd e angen oedd tir, a chamodd Kate Fenhalls i mewn, gan gynnig dychwelyd caeau yn Fferm Melindwr i gnydio cymysg eu gorffennol".

Mae'r grŵp wedi derbyn cefnogaeth ac wedi cydweithio gydag arbenigwyr Clwb Hen Beiriannau Meirionnydd, sydd wedi rhannu eu gwybodaeth a'u peiriannau i helpu gyda'r cynhaeaf grawn a dyrnu. Dywed Katie "mae'r clwb wedi bod yn amhrisiadwy i ni, maen nhw wedi ein helpu i fagu hyder a sgiliau". Y llynedd cafodd y gwenith ei falu ym melin ddŵr Felin Ganol yn Llanrhystud a'i bobi mewn bara gan fecws 'Rye and Roses'.

Eleni mae'r grŵp yn bwriadu amaethu tir newydd yn Fferm Melindwr ac arbrofi â grawn aml-gnwd, lle mae cnydau lluosog fel ffa 'fava', had llin a gwenith yn cael eu tyfu gyda'i gilydd ac yna'n cael eu gwahanu gan ddidolwr hadau ar y diwedd. "Mae'n debyg bod rhai perthnasoedd buddiol rhwng y gwahanol gnydau, ac mae gennym ddiddordeb mewn gweld amrywiaeth o gnydau mewn un cae" meddai Katie. Ar ôl caffael hen ddidolwr hadau o Ffrainc, maen nhw'n gobeithio hau eu harbrawf aml-gnwd eleni, yn ogystal â chynhyrchu mwy o wenith trwy ddefnyddio cae yn Abercegir, Machynlleth.



**HUW LEWIS**



**Teiars  
Aliniad Olwyn  
Ecsôsts  
Batris  
Brêcs  
Hongiad  
Bar tynnu  
Gwasanaeth  
MOT**



**HUWLEWISTYRES.COM**

**Glanyrafon** **Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000  
LLANBED 01570 422221**

## Ffair Wirfoddoli Cletwr

**Dydd Iau 8fed o Hydref a  
Dydd Iau 5ed o Dachwedd,  
13.30-15.30**

Rydym wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i weithio yn y caffi, y siop a'r gegin. Oes diddordeb da chi?  
Rydym yn eich gwahodd i ddod mewn am ddishgled a sgwrs, neu ffonio **01970 832113**, e-bost: [cletwr@cletwr.com](mailto:cletwr@cletwr.com)





## Colofn Elin

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod digon anodd i bawb, ac mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i mi hefyd. Ond wrth i nifer fawr o fusnesau ddychwelyd i'r 'normal newydd', mae yn rhoi gobaith newydd i ni.

Er hyn, mae angen cynlluniau penodol i ddenu meddygon teulu i weithio mewn meddygfeydd yng Ngheredigion. Mae'r pandemig coronafeirws wedi rhoi pwysau ychwanegol ar feddygfeydd lleol oedd eisoes dan bwysau. Mae nifer o'r meddygfeydd yng Ngheredigion yn gweithredu heb ddigon o staff meddygol ac mae angen gwneud mwy ar frys i wynebu'r diffyg hwn.

Dwi wedi galw ar y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i roi pecyn at ei gilydd i gynyddu'r nifer o ddoctoriaid sy'n gweithio yng Ngheredigion, ac mae angen canolbwyntio ar gynllun i ddenu doctoriaid i lenwi'r llefydd gwag yn y meddygfeydd.

Mae'n bosib bydd nifer ohonoch hefyd wedi sylwi bod y gwaith o ddiogelu Wal Tryweryn ger Llanrhystud wedi dechrau yn ddiweddar. Mae'r tir wedi ei lunio a'i dacluso. Roedd rhaid cwmpo coed oedd a chlefyd arnynt. Mae'r sgaffaldie wedi eu codi ac fe fydd y gwaith cerrig yn dechrau'r wythnos nesaf, gan ddefnyddio'r hen gerrig sydd yno'n barod. A na dyw hi ddim yn wir taw McDonalds drive-thru sy'n dod yna, er fod bobol yn stopio i ofyn be' sy'n digwydd!!

Hefyd efallai i chi glywed mod i wrthi'n cerdded 60 milltir mis yma i godi arian tuag at Uned Cemothepi newydd Ysbyty Bronglais. Hyd yma dwi wedi cwblhau 24 milltir ac felly mae ishe bwrw ati i gered! Dwi hefyd wedi sefydlu tudalen justgiving os ydych chi am gyfrannu. A mi fydda i yn torri pob greddf Cardi yn fy nghorff a matsio pob punt lan at y targed. Bant â'r cart!



## Dychwelyd i Nanteos

Mae gan yr awdures Jane Blank sydd wedi cyhoeddi cyfrol newydd *'Nanteos: The Dipping Pool'*, dilyniant i'w chyfrol boblogaidd, *'The Shadows of Nanteos'* gysylltiad agos â'r ardal yma. Cafodd Jane ei geni a'i magu yn Sheffield a byddai'n dod ar wyliau yn blentyn gyda'i theulu at ei mamgu a'i thad-cu, y diweddar Edward a Mary Griffiths, Foel Fach a Fferm Ffwrnais gynt ac mae ganddi feddwl y byd o'r ardal yma a gweddill Cymru. Mae'n nith i John Griffiths, Fferm Ffwrnais.

Breuddwyd Jane, oedd meistrol'r iaith Gymraeg a chael symud i fferm yng nghefn gwlad Cymru. Gwireddwyd ei breuddwydion gan bod hi a'i gŵr Jem bellach yn byw yn Nhynrhos, Llanrhystud, ar ddau yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r stori yn y gyfrol ddiweddaraf yn mynd a ni nôl i Sir Aberteifi y 1750au. 'Roedd bywyd y gwerinwyr yng ngorllewin gwyllt Cymru yn fyr a chreulon wrth iddynt ymdrechu i wneud bywoliaeth o'r brynau llwm a'r mwyngloddio bregus a pheryglus. Er hynny, i lawr yn y plastai cain roedd y boneddigion yn byw yn fras ac yn ffynnu.

Prynwch y llyfr gan ei fod yn hedfan oddi ar silffoedd ein siopau llyfrau a mwynhewch y darllen! Cyhoeddir y gyfrol gan wasg Y Lolfa a'r pris yn £9.99.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

01970 832760

### Swyddog Prosiect 'Trywydd Iach'

I gydlynu gweithgareddau 'iechyd a lles awyr agored', a helpu pobl ddatblygu syniadau llwybrau cerdded a beicio, ar y cyd â Coed Lleol.

Mae sgiliau cyfathrebu a threfnu dwyieithog, yn fodlon mentro, a gwybodaeth leol eu hangen. 37 awr/wythnos. £23,600. Croesewir ceisiadau i rannu'r swydd.



Dyddiad cau: 10:00 9/11/2020

Gwybodaeth a ffurfienni: [andy@ecodyfi.cymru](mailto:andy@ecodyfi.cymru) Y Plas, Machynlleth, SY20 8ER 01654 702630



**Alun Davies**  
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA

**E** [alun.davies142@btinternet.com](mailto:alun.davies142@btinternet.com)

## Doniol

Roedd angen anrhegion arbennig i'r fam oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 felly rhoddodd un mab a oedd yn gwerthu tai dŷ gyda phwll nofio iddi. Gwerthu ceir oedd gwaith un arall felly prynodd Rolls Royce iddi. Aderyn drud, lliwgar, prin iawn, iawn gafodd hi gan yr un oedd yn berchen ar siop gwerthu anifeiliaid. Wrth ymateb i'r anrhegion dywedodd 'diolch ond nid wyf yn gallu nofio' i'r cyntaf, 'diolch ond nid wyf yn gallu gyrru' i'r ail fab ac i'r trydydd, 'diolch yn fawr iawn, roedd blas hyfryd ar dy gyw iâr di.'

\* \* \*

Dyn yn gweld ffarmwr yn sefyll yng nghanol cae ac yn holi:  
beth wyt ti'n ei wneud?

Ffarmwr: dwi'n trio ennill Gwobr Nobel

Dyn: Sut felly?

Ffarmwr: Clywais fod modd ennill y wobwr wrth sefyll allan yn eich maes.

# Busnes Podiatreg

Fy enw yw Angharad Fflur Dafydd a rwyf newydd ddechrau busnes Podiatreg yma yn Aberystwyth. Penderfynais dychwelyd yn ôl a dechrau'r busnes newydd ar ôl bron deng mlynedd i ffwrdd yn gweithio yn gwahanol lefydd. Gwnaeth y cyfnod clô fy ngorfodi i gau y Clinig am gyfnod yn Llundain a braf oedd cael dychwelyd i gefn gwlad Cymru a sylweddoli mai yn ôl yma yn Aber roeddwn am ail ddechrau ymarfer eto fel Podiatrydd.

Rwy'n wreiddiol o Dal-y-bont a Chapel Bangor, a chefais fy addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont cyn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Penweddig a Phenglais. Bûm yn astudio Podiatreg rhwng 2008-2011 ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC). Roedd yn gwsr gradd gwyb gan fy mharatoi'n dda ar gyfer y byd gwaith mewn Podiatreg, wrth fynd ymlaen i helpu pobol efo'u problemau traed. Buaswn yn argymhell y cwrs i unrhyw un sydd a diddordeb yn y maes!

Ar ôl graddio bûm yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yn Truro yng Nghernyw am flwyddyn cyn symud ymlaen i ymarfer yn Winchester a Llundain. Yng nghanol y cyfnod hwn cefais brofiad gwerthfawr tu hwnt a mwynhad mawr oedd gweithio allan yn Awstralia am flwyddyn, cyn dychwelyd yn ôl i Brydain a dechrau clinig fy hun am y tro cyntaf yn Greenwich, Llundain.

Rwyf wrth fy modd cael dychwelyd i weithio yn ôl i fy milltir sgwâr yma yn Aberystwyth. Mae'n hyfryd

cael gweld y môr bob dydd wrth deithio i fy safle gwaith sydd bellach yng Ngwesty Bodalwyn ar Heol y Gogledd. Wedi dechrau fy musnes ers rhai wythnosau, un o'r profiadau gorau oll yw cael cyfathrebu a gweithio drwy'r iaith Gymraeg, a chael sgwrsio efo pobol yr ardal yn fy iaith gyntaf. Doedd dim llawer o gyfle i wneud hyn yn Llundain!

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am yr hyn yr wyf yn ei gynnig o ran trîn traed, mae croeso i chi ymweld â fy ngwefan sef [www.thepodiatristaber.co.uk](http://www.thepodiatristaber.co.uk). Rwy'n hapus i gynnig cyngor cyffredinol ac wedi delio efo pob mathau o broblemau mae pobol yn dioddef gyda'i traed felly peidiwch â bod ofn gofyn! Fel mae'n dweud ar y wefan y nòd yw i ddarparu gofal rhagorol mewn amgylchedd cyfeillgar a chyffyrddus a'ch gadael efo traed hapus ac iachus drwy'r flwyddyn!

Os hoffech wneud apwyntiad mae modd gwneud hynny trwy'r wefan neu fy ebostio/rhoi galwad ffôn ar [afd@thepodiatristaber.co.uk](mailto:afd@thepodiatristaber.co.uk) / 07521131354. Diolch a phob hwyl.



# Ffilmiau Ddoe



Aled Jenkins a Emma Walford yn mesur pellter Covid diogel ar gyfer ffilmio

Mae silffoedd Archif Sgrin a Sain y Llyfrgell Genedlaethol yn gasgliad archifol anferthol ac unigryw sydd yn ymestyn yn ôl cyn belled â'r 1880au ac yn cynnwys ffilmiau o bob math. Ffilmiau sy'n cofnodi digwyddiadau cymdeithasol fel carnifals, sioeau amaethyddol, Eisteddfodau a ffilmiau teuluoedd o bob rhan o'r wlad yn dathlu priodasau, dyddiau Nadolig a gwyliau teuluol.

Rydw i wedi cael clipiau gan yr Archif ar gyfer nifer o raglenni teledu a radio ar hyd y blynyddoedd a bob amser yn mwynhau cael cyfle i dyrchu a thrafod perllau'r casgliad gyda'r staff yno. Pan ddaeth y clo mawr ac S4C yn chwilio am raglenni y gellid eu gwneud heb orfod teithio llawer i ffilmio mi gynigiais i'r syniad o gyfres fyddai'n seiliedig ar gasgliad yr Archif. A dyna greu Ffilmiau Ddoe. Cyfle i bori drwy'r drysorfa yng nghwmni criw hwyliog o gyflwynwyr a chyfranwyr, yn feirdd ac actorion, cyfarwyddwyr a digrifwyr.

Pum mis yn ddiweddarach mae'r rhaglenni ar y sgrin. Mae 3 rhaglen wedi ymddangos erbyn hyn gyda themau yn amrywio o garnifals i wyliau teulu, cartwnau, portreadau o Gymru a phriodasau. Cafodd Capel Tabernacl Aberystwyth le yn y rhaglen gyntaf gydag Emma Walford a Helen Humphreys yn trafod priodasau ac un o'u ffefrynnau nhw oedd ffilm hyfryd o Mr a Mrs Varley, Waunfawr yn priodi nôl yn 1968. (Mae hon yn dal ar iPlayer a Clic)

Yn y rhaglen ar S4C - 04.10.20 - gyda'r cyflwynydd Dilwyn Morgan roedd modd gweld clip byr o ffilm gan y diweddar Mrs Gwen Davies Dolcletwr, yn dangos y lori laeth yn galw am y tro diwethaf. Yn y rhaglen fydd yn cael ei darlledu nos Sul yr 11eg o Hydref, gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd, bydd ffilm hyfryd o'r Foel yn dangos golygfeydd cyfarwydd iawn i nifer o ddarlennwyr Papur Pawb - sef cneifio o'r 50au, Canolfan Hyfforddi Felinfach o'r 60au, Eisteddfod Machynlleth ym 1937 a deunydd prin iawn o Eisteddfod Aberystwyth o 1916 gyda'r Castell a meini'r Orsedd yn serennu. Ac efallai un o fy ffefrynnau i - ffilm o Ffair Dalis Llanbedr Pont Steffan o 1914, gyda lluniau rhyfeddol o ganol y dre yn llawn ceffylau smart.

Gobeithio y cewch chi'r cyfle i eistedd yn ôl a mwynhau gweld ffilmiau ddoe trwy lygaid heddiw.

Catrin M S Davies

Cwmni lleol Unigryw o Dal-y-bont sydd yn cynhyrchu Ffilmiau Ddoe i S4C, a mae'n gywaith rhwng Unigryw, Cwmni Da ac Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Ffilmiau Ddoe – S4C Clic, ac iPlayer – Nos Sul am naw**



Dolcletwr

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
m.rowlands1958@gmail.com



**Michael Rowlands**  
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

*Rhian*  
trîn gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol  
Prydion • Personol

Martin Davis  
14-y-coed, Tre Talleir, MACHYNLLETH  
Ffôn: 01970 832230  
ffiaith@aol.com

# Afancod yn dychwelyd i Gors Dyfi ar ôl 400 mlynedd?



Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am drwydded i ryddhau afancod i safle caeëdig yng ngwarchodfa Gors Dyfi, Derwenlas.

Y bwriad yw defnyddio'r afancod i wella cynefinoedd tir gwlyb. Cors fawn ar dir isel yw'r warchodfa, cynefin eithriadol bwysig yng Nghymru.

Mae Cors Dyfi eisoes yn gartref i weilch y pysgod sydd i'w gweld yno rhwng misoedd Ebrill a Medi, yn ogystal â llawer o fywyd gwyllt arall ac mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn gweithio'n galed i ddod â'r safle'n ôl yn fyw.

Hela am eu cig, ffwr a'u castoreum yw'r rheswm am ddifflaniad yr afancod o Ynysoedd Prydain 400 mlynedd yn ôl. Bellach mae'r cynllun i ail-gyflwyno afancod ar y gweill oherwydd eu gallu rhyfeddol fel 'peirannwyr gwlyptir' sy'n gallu helpu i leihau llyfogydd trwy greu argaeau. Mae'r afancod yn cnoi helyg a choed eraill a chreu pyllau dŵr sy'n fantais i bysgod ifanc. Cofiwch bod afancod eu hunain yn llysiuwyrr llwyr ac mewn ffordd yn tyfu bwyd eu hunain. Mae cnoi coed fel helyg yn hybu tyfiant newydd ac mae hyd yn oed yr argaeau coed yn fyw!

Mae'r ymgynghoriad ar gais Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, a manylion pellach, ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar agor tan yr 11 Hydref. Croeso i ddarllenwyr Papur Pawb rannu eu sylwadau: <https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/permitting-caniatau/retention-of-beavers-at-cors-dyfi/>



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF  
gruffhysjones@googlemail.com

**07594 349 354**  
**01970 832 543**

**Gruffydd Jones**  
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

# Dan Do



Dyma ddechrau ar gyfres achlysurol newydd yn *Papur Pawb* ar dai ac adeiladau hen a newydd yn y gymuned. Byddem yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n barod i ysgrifennu erthygl ar dŷ neu hen adeilad sydd â stori ddiddorol yn gysylltiedig â hwy.

**Y tro hwn cawn ychydig o hanes tŷ sydd heb ei orffen hyd yn hyn. Ers rhai misoedd, mae Cyril Baker, Lerry View, Tal-y-bont wedi bod yn adeiladu tŷ newydd sbon gan ddefnyddio dulliau gwahanol i'r arfer, fel y mae'n esbonio:**

'Prynais Lerry View yn 2008. Roeddwn erioed wedi bwriadu codi tŷ newydd yn y darn o'r ardd sy'n wynebu'r gored ar yr afon Leri. Byddai hwn yn gartref wedi'i gynllunio i fy manyleb bersonol i gyda golygfa ardderchog o'i flaen.

Treuliais lawer o amser yn ymchwilio ar gyfer y dewis terfynol o ddyluniad ac adeiladwaith. Penderfynais ddefnyddio blociau Durisol Woodcrete I C F. Nid oes llawer yn gwybod amdanynt ond maent wedi bod ar gael am 70 mlynedd a rhoddwyd sylw iddynt ar y rhaglen deledu *Grand Designs*.

Un o brif ragoriaethau system Durisol yw hwylustod gan y gellid ei defnyddio gan gontractwyr a hunan-adeiladwyr. Mae'r blociau yn mesur 500 x 250 x 365 cm. ac maent wedi'u creu gan gwmni yn ne Cymru o bren ail-gylchu. Unwaith maent wedi'u gosod yn eu lle, mae'r gofod canolog ynddynt yn cael ei lenwi gan ddeunydd inswleiddio a choncrit.

Fe fues i a'r briciwr Mike Rowlands yn derbyn hyfforddiant ynglŷn â'r dulliau gorau o osod y blociau. Fe'u gosodir yn sych yn uniongyrchol ar y sylfeini hyd at y cwrs lleithder yn y lle cyntaf yn barod ar gyfer yr arllwysiad cyntaf o goncrit. Wedi hynny gosodir y blociau mewn haenau gyda'r concrit yn cael ei arllwysu wrth fynd ymlaen.

Byddaf yn gosod llechi TAPCO ar y to. Er eu bod o wneuthuriad plastig, maent yn edrych yn union fel llechi cyffredin.

Rwy'n gobeithio gorffen y tŷ yn y flwyddyn newydd. Bydd yn gartref 4 stafell wely gyda garej dwbl yn unol â'm gofynion i. Ni fydd angen llawer o waith cynnal a chadw arno, bydd yn effeithiol o safbwynt ynni ac yn addas o safbwynt amgylcheddol.

Byddwn yn hapus i drafod y dulliau adeiladu petai unrhyw un am fy holi.'

# CHWARAEON

## Pob lwc i Rhys

Tair blynedd yn ôl, adroddwyd ym *Mhapur Pawb* am lwyddiant pêl-droediwr ifanc lleol, Rhys Norrington-Davies, Tŷ'n-y-cae, Tal-y-bont. Bellach mae Rhys wedi ei alw gan y rheolwr Ryan Giggs i ymuno â charfan Cymru ar gyfer y tair gêm ryngwladol i'w chwarae ddechrau Hydref.

Bydd y rhifyn hwn o *Bapur Pawb* yn cael ei argraffu cyn y gemau hynny yn erbyn Lloegr, Iwerddon a Bwlgaria, felly nid oes modd i ni adrodd iddo ennill ei gap cyntaf dros ei wlad. Rhaid cofio iddo gael ei enwi mewn carfan o 27 chwaraewr, pob un yn brwydro am ei le yn y tîm, ond mae gan Giggs enw da am roi cyfle i fechgyn ifanc addawol.

Rhys yw'r Cardi cyntaf i gael ei alw i'r garfan ers i Gwion Edwards o Lambered gael ei ddewis i'r garfan genedlaethol yn 2014 ond mae Gwion, sydd bellach yn chwarae i Ipswich Town, eto i ennill cap. Y Cardi olaf i ennill cap oedd Donato Nardiello a aned yn Aberteifi (er o dras Eidalaid) a chwaraeodd i Gymru ddwywaith yn 1978. Cyn hynny rhaid mynd yn ôl dros ganrif pan chwaraeodd Ernie Peake i Gymru. Ganed Peake yn Aberystwyth yn 1888!

Cefnwr chwith 21 mlwydd oed yw Rhys Llewelyn Norrington-Davies, i roi ei enw llawn. Mae ar lyfrau Sheffield United ond mae'n chwarae i Luton Town ar fenthyg am dymor. Yn ddiweddar chwaraeodd yn erbyn hen glwb Ryan Giggs, Manchester United, yng Nghwpan Carabao, gan mae'n debygol iddo ddal llygad y rheolwr cenedlaethol.

Yn yr adroddiad ym *Mhapur Pawb* Rhagfyr 2017, cyfeiriwyd at ei gefndir teuluol fel hyn:

'Mae'n debyg mai dilyn hen draddodiad teuluol y mae Rhys, gan fod ei dad-cu yn amddiffynnwr cadarn gyda thimau Taliesin a Thal-y-bont flynnyddoedd yn ôl. Bydd sawl un o gefnogwyr pêl-droed lleol yn cofio Gwyn 'Titch' Evans ac ambell i flaenwr yn dal i deimlo'r cleisiau!'

Bydd Gwyn a gweddill y teulu, yn ogystal â chefnogwyr pêl-droed yr ardal, yn gobeithio gweld Rhys yn gwisgo'r crys coch yn un neu fwy o gemau'r Hydref. Pob lwc iddo.



GJ

# DYDDIADUR

## HYDREF

- 11 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Boreol Weddi, Gŵyl Gynhaeaf. Derbynnir rhoddion ar gyfer y Banc Bwyd.
- 25 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Boreol Weddi

## Yr Ardd Fach



Os ydych wedi mynd heibio'r Ardd Fach ger y Patshyn Glas ar fore Sul yn ddiweddar, siawns eich bod wedi gweld criw bach o arddwyr wrthi yn tocio ac yn palu. Ar ôl derbyn gwahoddiad gan Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr i gymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r ardd, roedd tywydd mis Medi yn ddigon braf i rai o Glwb Garddwyr y Gymuned gwrdd pedair gwaith i ddechrau ar y gwaith o dacluso a phlannu. Codwyd yr holl lechi mân oedd ar wyneb yr ardd yn ogystal â'r hen haen blastig yn y pridd oedd wedi braenu a malurio. Bu'r criw yn tocio a chwynnu gydag awch ac erbyn hyn mae'r ardd yn barod ar gyfer plannu bylbiau a phlanhigion newydd. Mae'r garddwyr yn gobeithio creu gardd fydd o ddiddordeb trwy gydol y flwyddyn ac ar ei anterth ym mis Awst i groesawu ymwelwyr i faes y sioe.

**Garej Davmor**  
 Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
 Adnewyddu blychau gër a gosod cydyddion  
 Brechdanau poeth ac oer • Slop Gyfleustra drwyddedig  
 Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)  
 Ffôn: 01970 832278

argraffu da  
 am bris da

**Y Lolfa** holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
 01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)